
**£1.00**



# Yr Arglwydd Rhys

## TYWYSOG DEHEUBARTH

### GWYNFOR EVANS

Gwasg Gwynedd

*Argraffiad Cyntaf — Hydref 1982*

*Cyhoeddir er dathlu 850 mlwyddiant*
*geni Rhys ap Gruffudd ym 1132*


Clawr gan Dewi Prys Thomas
seiliedig ar lun o gastell Dinefwr
gan Roger Vlitos © Llandeilo: 1982

*Cyhoeddwyd ac argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Caernarfon*



*Yr Arglwydd Rhys*

*Trwy ganiatad y Llyfrgell Genedlaethol*




*Map gan Guto Prys*

Ddwy genhedlaeth cyn geni Rhys ap Gruffudd lladdwyd Gruffudd ap Llywelyn, yr unig frenin Cymreig a reolodd Gymru o Fôn i Fynwy. Dair blynedd yn ddiweddarach enillodd William y Gorchfygwr frwydr Hastings a choncro Lloegr. Ymhen dwy flynedd yn unig ar ôl Hastings rhoes y Normaniaid ben ar ymron saith gan mlynedd o annibyniaeth Gwent. Brenin yr hen deyrnas hon yn y bumed ganrif oedd Caradog Freichfras a ddygai enw y Caradog hwnnw a arweiniodd wŷr Gwent yn erbyn y Rhufeiniaid yn y ganrif gyntaf o oed Crist. Disgrifir Caradog a'i frwydr olaf gan Tacitus, y mwyaf o'r haneswyr Rhufeinig. Er i Went syrthio fil o flynyddoedd ar ôl ei ddydd gerbron arfau rhagorach y Normaniaid, ni chafodd ei hysbryd na'i Chymreictod eu diffodd.

Hyn oedd dechrau'r rhyfela rhwng Cymro a Norman a barhaodd am ddau can mlynedd a mwy hyd at ladd y Tywysog Llywelyn yng Nghilmeri a dienyddio ei frawd Dafydd yn Amwythig. Hyd yn oed wedyn bu cyfres o wrthryfeloedd a gyrhaeddodd eu hanterth yn ymdrech ardderchog Owain Glyndŵr yn nechrau'r bymthegfed ganrif. Methodd y Normaniaid yng Ngwent â symud ymhellach i'r gorllewin na Chaerleon ar ôl eu hymosodiad cyntaf, ond yng nghanolbarth Cymru a'r Gogledd yr oedd y sefyllfa yn fwy peryglus. Yn Nhrefaldwyn sefydlodd y goresgynwyr gastell a fu'n sail gadarn i'w cyrchoedd i galon Cymru. Meddiannwyd Arwystli hyd at lannau Dyfi ger Machynlleth, ac ymosodasant oddi yno ar Geredigion. Ymhellach i'r gogledd codwyd castell yn Rhuddlan ac wedyn, ar ôl concro Rhos, un arall yn Nygannwy ger aber afon Conwy. Pan aethant mor bell â phenrhyn Llŷn yr oedd yn amlwg nad oedd unman yng Ngwynedd yn ddiogel rhagddynt.

Dyna oedd y sefyllfa fygythiol ym 1081, hanner canrif cyn geni Rhys: Gwent ym meddiant y Normaniaid, a'r cyfan o Bowys a Gwynedd, a hyd yn oed Geredigion, mewn perygl. Eu cestyll a'u profiad, eu disgyblaeth filwrol ac yn arbennig eu harfau ymosodol ac amddiffynnol a ddygodd yr estroniaid i'r safle cryf hwn. Ond nid oedd y Cymry heb adnoddau moesol na dawn filwrol. Yr oeddent yn wydn ac ar adegau yn arwrol. O ganlyniad, er cymaint oedd manteision y goresgynwyr bu trai yn ogystal â llanw yn eu hanes am dros ddau can mlynedd. Methasant â meddiannu'r cyfan o Gymru ar unrhyw adeg yn ystod y canrifoedd hynny. Weithiau byddent hwy yn ben yn y rhan fwyaf o Gymru ac weithiau'r Cymry. Trwy'r rhan fwyaf o'r ddwy ganrif y Cymry a reolai'r rhan fwyaf o'r wlad, gan gynnal eu hiaith ymhlith bonedd a gwreng, mewn llys a llywodraeth, cyfraith a diwylliant. Gant ac ugain o flynyddoedd ar ôl y goresgyniad cyntaf gallai

Gerallt Gymro ddisgrifio pobl a oedd yn un a chytûn wrth amddiffyn eu rhyddid.

'Y mae nid yn unig yr uchelwyr ond yr holl bobl, yn barod at arfau: pan gano'r corn rhyfel, rhuthra at arfau y gwladwr wrth ei aradr gyda'r un parodrwydd a'r gŵr llys o'i lys.'

Ysigwyd bywyd y genedl gan y goresgyniad wrth gwrs, ond fe'i cyfoethogwyd yn fwy. Er bod tyndra mawr rhwng y Cymry a phobl o iaith a diwylliant gwahanol iawn yr oedd yn dyndra creadigol. O ganlyniad bu llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod yn anhraethol gyfoethocach nag y bu llenyddiaeth Saesneg. Pa beth a gynhyrchwyd yn Saesneg sy'n deilwng o'i roi wrth ochr rhyddiaith a barddoniaeth Gymraeg y canrifoedd hyn?



## Rhys ap Tewdwr

Nodais y flwyddyn 1081. Gwnes hynny am mai yn y flwyddyn honno yr ymladdwyd un o'r brwydrau mwyaf tyngedfennol yn ein hanes, a brwydr rhwng Cymry oedd hi. Fe'i hymladdwyd ar Fynydd Carn ym Mhenfro, efallai ar y Preselau, ychydig cyn ymweliad William y Gorchfygwr â Thyddewi. Yno ymladdodd dau o'n tywysogion pennaf, Rhys ap Tewdwr o Ddeheubarth a Gruffudd ap Cynan o Wynedd, mewn cynghrair llwyddiannus i adennill eu teyrnasoedd oddi wrth dreiswyr a'u meddiannodd. Bendithiwyd eu byddin gan yr Esgob Sulien ddysgedig o Dyddewi.

Y brenhinoedd Rhys ap Tewdwr a Gruffudd ap Cynan oedd dau dad-cu Rhys ap Gruffudd. Yn Iwerddon, lle'r oedd ei dad yn alltud, y maged Gruffudd ap Cynan, yn fab i Ragnell, merch o dras frenhinol Sgandinafaidd a berthynai hefyd i linach frenhinol Leinster. Y mae'n werth nodi wrth fynd heibio yr amrywiaeth yn nhynged y Sgandinafiaid yn yr ynysoedd hyn. Er i'w cyrchoedd wneud niwed enbyd yng Nghymru yn y ddegfed ganrif a dechrau'r unfed ar ddeg, ni chawsant afael ar fawr ddim o'i daear hi. Eithr meddiannwyd rhannau mawr o Iwerddon a'r Alban ganddynt, a gorchfygasant y Saeson deirgwaith. Canute, a lywodraethodd Loegr am ugain mlynedd, a'i hunodd hi gyntaf erioed, a hynny fel rhan o Ymerodraeth Denmarc. Yng Nghymru y mae hyd yn oed yr enwau Norseg o gwmpas y glannau môr ac ar yr ynysoedd, yn ôl D. Simon Evans yn ei Ragymadrodd meistraidd i *Historia Gruffudd ap Cynan*, yn dyst i weithgarwch morwrol a masnachol yn hytrach nag i feddiant milwrol. Bu'r dylanwad Gwyddelig yn fwy, yn rhannol trwy gyfrwng Gruffudd ap Cynan, a rhywfaint efallai trwy Rhys ap Tewdwr a'i fab Gruffudd a fu yntau yn alltud yn Iwerddon hefyd.

Disgynnai Rhys ap Tewdwr a Gruffudd ap Cynan eu dau o Hywel Dda a Rhodri Mawr; ac y mae adlais o'r cyfnod Rhufeinig yn yr enw Tewdwr, sydd yr un â Theodor. Cafodd Rhys fwy o lwyddiant wrth drin y Normaniaid na Gruffudd, o achos, efallai, cytundeb a wnaeth gyda William y Gorchfygwr. Pan gymerwyd Gruffudd yn garcharor ym 1087 gallodd y Normaniaid fynnu bod hawliau coron Gwynedd yn eiddo iddynt hwy; eithr parhaodd Deheubarth o dan reolaeth ddiamheuol Gymreig.

Y mae'n rhaid cofio na welodd Cymru y math o wladwriaeth ganoliaethol a sefydlodd y Normaniaid yn Lloegr. Byth oddi ar amser Macsen Wledig fe fu hi'n gasgliad o wledydd bach, rhyfeddol o hirhoedlog hyd yn oed yng Ngwent a Brycheiniog, y gellir eu cymharu â chantonau'r Swisdir. Powys oedd y gryfaf ohonynt yng nghychwyn cyntaf eu hanes; Gwynedd fu'r gadarnaf trwy ran fawr o'r amser; ond yng nghyfnodau

Hywel Dda a Rhys ap Gruffudd, Deheubarth oedd bwysicaf.

Ar gyrion dwyreiniol Deheubarth y clywodd Rhys ap Tewdwr bwysau'r Norman gyntaf. Chwarter canrif wedi iddynt drechu Gwent dechreuodd y Normaniaid oresgyn Brycheiniog a fu'n deyrnas annibynnol Gymreig oddi ar y bumed ganrif. Mynd yno i amddiffyn y ffin yr oedd Rhys pan gafodd ei ladd mewn brwydr yn ymyl Aberhonddu. Dengys y canlyniadau bwysigrwydd enfawr arweiniad tywysog cryf. Pan syrthiodd Rhys – 'calon ddewraf Cymru' – agorodd y llifddorau. Llifodd y Normaniaid i'r gorllewin gan greu argyfwng dwfn a effeithiodd ar Gymru oll.



## Argyfwng

O fewn ychydig wythnosau ymosododd byddin yr Iarll Roger o Montgomery, a oedd ym meddiant Arwystli, ar Geredigion a Dyfed. Cododd gestyll yn Aberteifi a Phenfro a fyddai'n gaerau cryfion allweddol am ganrifoedd. Gerald o Windsor, a oedd i chwarae cryn ran yn hanes y genhedlaeth nesaf, a roddwyd yng ngofal castell Penfro, na châi ei ddymchwel byth gan y Cymry; ac yn Rhyd-y-gors, filltir o Gaerfyrddin, sefydlwyd William fitzBaldwin, siryf Dyfnaint. O dan y pwysau hyn bu'n rhaid i Gruffudd mab Rhys ap Tewdwr ffoi am loches i Iwerddon fel cynifer o dywysogion y canrifoedd hynny. Gorchfygwyd Morgannwg hefyd, a chododd Robert fitzHamon gastell yng Nghaerdydd ar y sail Rufeinig. Gyda'r rhan fwyaf o'r wlad o dan lywodraeth y Normaniaid yr oedd Cymru i bob golwg yn mynd i ddioddef tynged debyg i Reged ac Ystrad Clud.

Ond ar awr dduaf eu hanes adferodd y Cymry eu hewyllys i fyw. Ymhob rhan o'r wlad codasant mewn ymateb rhyfeddol i her y goresgyniad. Yng Ngwynedd cipiasant bob un castell Normanaidd y tu gorllewinol i Afon Conwy ac adfeddianasant Fôn. Trechasant fyddin fawr Normanaidd yng Nghoed Yspwys. Anrheithiasant diroedd a phentrefi mor bell â ffiniau Caer ac Amwythig. Dihangodd Gruffudd ap Cynan o'r carchar i gymryd rhan yn eu hymgyrch. Efe a gasglodd ynghyd y llynges a'r fyddin a gipiodd gastell Nefyn. Yn y deheudir bu'r Cymry yr un mor benderfynol. Ac eithrio Penfro a Rhyd-y-gors, a syrthiodd y flwyddyn ganlynol, dinistriwyd pob castell yn Nyfed a Cheredigion. Pan feddiannwyd hyd yn oed gastell Trefaldwyn symbylwyd y brenin Rufus i ddwyn byddin fawr i Gymru yn Hydref 1095. Ond dysgasai'r Cymry eisoes mai tacteg gerila a dalai orau iddynt. Wedi cyrraedd o'r llu brenhinol mor bell ag Ardudwy bu'n rhaid iddo ymgilio. Draw yn y de-ddwyrain ymunodd gwŷr Morgannwg, Brycheiniog a Gwent yn y rhyfel a gymerasai arno wedd genedlaethol. Enillwyd buddugoliaeth werthfawr gan wŷr Morgannwg yng Ngelli Carnant a chan wŷr Brycheiniog yn Aber Llech yn ymyl Ystradgynlais, er iddynt fethu â chipio'r cestyll. Fel hyn yr ymledodd y rhyfel a ddiogelai Gymreictod drwy bob teyrnas a thalaith yn y wlad. Mewn cyfnod byr o ddwy flynedd trawsnewidiwyd y sefyllfa, a chafodd ysbryd y Cymry ei lwyr adnewyddu. Er iddynt golli wedyn lawer o'r tir a enillwyd ni syrthient yn ôl eto i gyflwr 1093 am bron ddau gant o flynyddoedd. Hanes y canrifoedd hyn yw epig arwrol fwyaf y genedl.

Penfro oedd trobwynt tynged y Normaniaid. Gwarchaewyd y castell gyda phenderfyniad mawr gan y Cymry a bu ond y dim iddo syrthio. Ond sefyll a wnaeth, ac ym 1097 casglodd Gerald o Windsor fyddin ddigon cryf

ynghyd i wrth-ymosod. Cafodd gefn nerthol y brenin Rufus a ddychwelodd i Gymru gyda'i luoedd yng ngwanwyn y flwyddyn honno. Er nad enillodd frwydr o bwys adferodd ei gyrch ysbryd y Norman a chryn dipyn o'i safle. Erbyn diwedd ei deyrnasiad, Ceredigion ac Ystrad Tywi yn unig a arhosai o dan reolaeth Gymreig yn y deheudir.

Yng Ngwynedd, gyda'i chaer naturiol yn Eryri, yr oedd y sefyllfa yn iachach. Er bod ymosodiad gan Ieirll Caer ac Amwythig wedi gorfodi Gruffudd ap Cynan a Chadwgan ap Bleddyn o Bowys i ffoi i Iwerddon, dros dro y bu hynny ac aflwyddiannus fu'r cyrch. Fe'i nodweddwyd gan un o'r anfadweithiau a gyflawnai'r Normaniaid o dro i dro. Llofruddiwyd nifer o'r carcharorion Cymreig mewn gwaed oer ac anafwyd eraill yn erchyll trwy dynnu eu llygaid a thorri eu traed, eu dwylo a'u ceilliau. Lladdwyd Iarll Caer yn fuan wedi hyn mewn brwydr yn erbyn llynges Sgandinafaidd a arweiniwyd gan neb llai na Magnus brenin Norwy. Cefnodd y Normaniaid ar Fôn ar ôl hyn ac ni châi'r ynys ei gorchfygu eto hyd 1283. Wedi i Gruffudd a Chadwgan o Bowys ddod yn ôl o Iwerddon mwynhaodd y ddau deyrnasiad nodedig, hyd yn oed disglair yn achos Gruffudd ap Cynan, a reolodd Wynedd hyd at ei farw o henaint ym 1137 a'i ddilyn gan Owain Gwynedd.

Llai llewyrchus fu hanes Cymry'r deheudir lle y bu teyrnasiad Henri 1 yn gyfnod o lanw i'r Normaniaid. Ym 1108 digwyddodd rhywbeth y parhaodd ei effaith hyd heddiw. Plannodd y brenin Seisnig drefedigaeth o Fflemisiaid yn Ne Penfro. Yr un oedd amcan Llywodraeth Loegr wrth wneud hyn yn nechrau'r 12fed ganrif ag wrth blannu trefedigaeth fawr o brotestaniaid Scotaidd yn Ulster yn y 17fed ganrif, sef darostwng y wlad a gosod rheolaeth Seisnig barhaol arni. Disgrifiwyd y Fflemisiaid gan Gerallt Gymro, a fagwyd yn eu plith, fel 'pobl a ddengys yr elyniaeth fwyaf tuag at y Cymry mewn ymgyrchoedd parhaus.' Nid adferwyd Cymreictod gwreiddiol y fro byth wedyn. Daliodd gwaelod Penfro yn ddi-Gymraeg, a chyndyn fu ei phobl i'w huniaethu eu hunain â gweddill y genedl.



## Gruffudd ap Rhys a Gwenllian

Y Cantref Mawr, yr unig ran o Ddeheubarth a oedd yn ail i Eryri o ran nerth naturiol, a welodd ymgyrch o blaid ymgais Gruffudd ap Rhys ap Tewdwr i adfeddiannu teyrnas ei dad. Fel ei dad yng nghyfraith, Gruffudd ap Cynan, treuliasai ei febyd yn Iwerddon; ac fel pob tywysog Cymreig y cyfnod hwn bu'n rhaid iddo ymladd â'r cleddyf dros ei hawliau. Rhyfel oedd unig ddull yr oes honno o newid y drefn wleidyddol, ac wedi dyfodiad y Normaniaid cestyll oedd canolfannau llywodraeth leol. Yr oedd cipio castell yn golygu ennill rheolaeth ar y wlad o'i gwmpas, a rhoddai fan cychwyn adennill tir helaethach. Gellir cymharu'r cestyll â seddau seneddol neu gyngor lleol yn yr oes ddemocrataidd hon. Yn y ddeuddegfed ganrif a'r un ddilynol, Caerfyrddin oedd prif gastell y brenin Seisnig – ac ef, i bob pwrpas, oedd Llywodraeth Loegr – yn ne-orllewin Cymru. Anaml y concrwyd ef gan y Cymry. Yn ein hoes ni, enillwyd yr etholaeth i Gymru ym 1966 ac eto ym 1974.

Ymosododd Gruffudd ap Rhys ym 1116 ar gestyll cryfion mor bell oddi wrth ei gilydd â Chaerfyrddin ac Aberystwyth, Narberth, Llanymddyfri ac Abertawe. Estynnai ei ymgyrch ar hyd a lled Deheubarth a'r tu allan iddo. Ond er ei ddewred yr oedd y nerth Cymreig yn rhy fach a'r nerth Normanaidd yn rhy fawr iddo ddymchwel y cestyll. Yn y diwedd fe'i cyfyngwyd i gwmwd Caio, y cyfan oedd yn weddill o deyrnas fawr ei dad. Yr unig lecyn o Gymru rydd a arhosai yn y deheudir oll oedd un cwmwd yn y Cantref Mawr. Ond gan na ddiffoddwyd ei ysbryd nid oedd Gruffudd yn ddiogel hyd yn oed yno. Ym 1127 bu'n rhaid iddo ffoi eto am loches i Iwerddon. Yno disgwyliodd ei gyfle, ac fe ddaeth hwnnw ym 1136.

O bob blwyddyn adfywiad 1136 yw'r rhyfeddaf yn hanes y Cymry. Y mae'n amlwg fod eu meddwl wedi bod yn aeddfedu yn ystod yr hanner can mlynedd o ymdrech yn erbyn Norman, Sais a Fflemisiad, a'u bod yn fwy ymwybodol o natur eu harwahanrwydd. Ymladdent yn awr fel rhai yn gweld bod ganddyn nhw eu gwerthoedd a'u ffordd eu hunain o fyw. Pan oedd y cyfan o'r deheudir a'r rhan fwyaf o'r gogledd dan draed yr estron anadlodd gwynt y bywyd ar farwor yr ysbryd Cymreig a'i chwythu'n fflam. Lledodd hwnnw o'r byd i'r Eglwys gan esgor ar ymdrech i dorri'n rhydd o Gaergaint. Brycheiniog a gynheuodd y fflam: marwolaeth yr hen deyrn Henri 1 oedd yr achlysur. Ddydd Calan 1136 ymosododd Hywel ap Meredudd o Frycheiniog ar Fro Gŵyr. Mewn brwydr fawr ger Abertawe lladdwyd dros bum cant o'r gelyn. Yn ymyl Crughywel yn Ebrill ymosododd gwŷr Gwent ar Richard fitzGilbert, arglwydd Ceredigion, a'i osgordd a'i ladd. Symbylwyd Owain a Chadwaladr o Feirion gan y

newydd am hyn i ymosod ar bum castell yng Ngheredigion, gan gynnwys Aberystwyth, a'u llosgi i'r llawr.

Aeth Gruffudd ap Rhys ar unwaith i Wynedd i ymofyn help ei dad yng nghyfraith Gruffudd ap Cynan, a oedd mewn gwth o oedran erbyn hyn. Tra yr oedd yno digwyddodd trychineb i Wenllian ei wraig, chwaer Owain Gwynedd. Y mae'n amlwg fod gan Gwenllian yr argyhoeddiad i ymroi gyda'i gŵr i hybu'r achos Cymreig, a bod ganddi hithau hefyd y ddawn a'r nwyd i arwain, ac i arwain yn filwrol. Nid oes ei thebyg yn bod yn hanes Lloegr. Tra bu ei gŵr yng Ngwynedd arweiniodd ei byddin yn erbyn Normaniaid Cydweli lle'r oedd un o'u caerau cryfaf oll o dan reolaeth Maurice o Lundain, arglwydd y cylch. Wrth ymladd yn erbyn ei fyddin ef fe'i lladdwyd hi, yr unig ferch o Gymraes i syrthio mewn brwydr. Gelwir maes y gad yn Faes Gwenllian hyd heddiw. Gyda hi syrthiodd ei mab Morgan, a chymerwyd ei frawd Maelgwn yn garcharor. Arwres ar ei phen ei hun yn ein hanes yw Gwenllian merch Gruffudd ap Cynan.

Dal i ymladd a wnaeth Gruffudd ap Rhys. Fe'i cawn yn hydref yr un flwyddyn yn ymuno â thywysogion y canolbarth i ymosod ar Aberteifi mewn brwydr fawr y bu'r Cymry yn gwbl fuddugoliaethus ynddi. Gyrrwyd y Normaniaid a'r Saeson yn bendramwnwgl i'r dref ac allan ohoni dros bont Teifi i gyfeiriad Llandudoch. Torrodd y bont o dan eu pwysau a boddwyd cannoedd yn nyfroedd Teifi. Y flwyddyn ganlynol ysgubodd Gruffudd dros gantref Rhos, a oedd ym meddiant y Fflemisiaid, a'i anrheithio. Hwn oedd ei gyrch olaf. Yn fuan wedyn bu farw ym mlodau ei ddyddiau tua'r un pryd â Gruffudd ap Cynan. Gŵr oedd Gruffudd ap Rhys a ddaliodd ati pan oedd ei gefnogwyr yn wan a diysbryd a'i elynion yn gryf a lluosog. Cadwodd ei lygad ar ei nod trwy'r dyddiau duaf, ac wrth gyrchu ato gosododd seiliau llwyddiant ei fab ifancaf. Rhoes Gymru yn ei ddyled. Y mae'n haeddu cael ei gofio.



## Yr Arglwydd Rhys

Gadawodd Gruffudd ar ei ôl bum mab nodedig, anghyffredin yn eu gallu a'u cydweithrediad. 'Brodyr rhinweddol a theg iawn' oedd disgrifiad Gerallt Gymro ohonynt, Anarawd a Chadell, Maredudd a Maelgwn, a Rhys yr ifancaf, a aned ym 1132, 850 o flynyddoedd yn ôl. Digon prin oedd y ddawn i gydweithredu ymhlith meibion y tywysogion am ddau reswm. Un oedd bod y gyfraith Gymreig yn rhannu'r etifeddiaeth rhyngddynt ar farwolaeth y tad; a'r llall oedd yr arfer o fagu plant y tywysog ar wahân i'w gilydd yng ngofal tad maeth. Sylwa Gerallt Gymro yn graff ar ganlyniadau anhapus arfer y tywysogion o roi 'eu hamryfal feibion ar faeth gan amryfal foneddigion o'u gwlad eu hunain,' sef bod 'pob un o'r rheiny, ar ôl marw'r tad, yn ymdrechu ac yn cynllunio â'i holl egni i ddyrchafu ei fab maeth ei hun, ac i'w godi'n uwch na'r lleill.'

Casgliad y sylwedydd annibynnol hwn, a oedd yn dri chwarter Norman, ar ôl sylwi'n hir ar y Cymry a'r Normaniaid, oedd, 'Pe dymunent fod yn anwahanadwy, gallent hefyd fod yn anorchfygadwy.' Eithr safodd y ddwy arfer hyn mor rymus ar draws ffordd undeb wyth gan mlynedd yn ôl ag y saif y pleidiau Prydeinig yn ein cyfnod ni. Yn nannedd yr hen arferion, cydweithredu a wnaeth meibion Gruffudd.

Byr fu rhawd pump o'i chwe mab. Lladdwyd Morgan gyda'i fam Gwenllian yng Nghydweli. Cafodd Anarawd, a ddisgrifir gan y Brut fel 'gobaith cadernid a gogoniant gwŷr De Cymru', ei ladd yn fradwrus gan Gadwaladr brawd Owain Gwynedd. Gadawodd hyn gyfrifoldeb trwm ar ysgwyddau Cadell am fod Maelgwn yn garcharor a Maredudd a Rhys o oedran plant. Eithr eisoes ym 1146, pan oedd Maredudd yn un ar bymtheg oed a Rhys yn bedair ar ddeg, caed y ddau ar flaen byddinoedd Deheubarth. Oedran bachgen pedwerydd dosbarth oedd Rhys pan ddechreuodd ar ei yrfa filwrol. O ucheldir y Cantref Mawr ymosododd y brodyr ar y Normaniaid a'u gyrru o'u blaen, rhai tuag at Abertawe ac eraill i gyfeiriad Penfro. Gorchfygwyd castell Mabudrud a gododd yr Iarll Gilbert y flwyddyn cynt. Gyda help Hywel ap Owain Gwynedd cymerasant gestyll Caerfyrddin a Llansteffan. Erbyn hyn yr oedd y Cymry wedi dysgu'r ffordd nid yn unig i drechu castell ond hefyd i'w amddiffyn. Amddiffynnwyd Llansteffan yn llwyddiannus gan Faredudd ifanc yn erbyn gwrth-ymosodiad y Fflemisiaid. Unwaith yn rhagor yr oedd dwyrain Dyfed mewn dwylo Cymreig.

Pan alwodd William fitzGerald, un o feibion Nest merch Rhys ap Tewdwr, am gymorth ei gyfyrdyr yn ei ymgiprys ag arglwydd Deugleddau cydiodd y brodyr yn y cyfle a dinistriwyd castell Wiston. Rhoes eu llwyddiant ddigon o hyder i Gadell i wneud Caerfyrddin, prif

gastell brenin Lloegr yn Nyfed, yn ganolfan ei deyrnas. Atgyweiriodd y castell a chryfhaodd ei safle ymhellach trwy anrheithio rhanbarth Cydweli. Ond trawodd trychineb arall. A Chadell mewn safle cryf iawn ymosodwyd arno gan fintai o farchogion a milwyr traed pan oedd yn hela yn ymyl glan môr Penfro a'i glwyfo bron at farw. Gan na fedrai afael mwy yn yr arweinyddiaeth dibynnai hynny bellach ar Faredudd a Rhys. Nid oedd pall ar eu hegni hwy. Yr ochr draw i Afon Llwchwr dinistriasant y castell a warchodai Ŵyr ac anrheithiasant y fro. Troesant eu sylw at Geredigion a fu'n rhan draddodiadol o deyrnas Deheubarth. Rhoesant ben ar reolaeth Gwynedd yno, a chyn bo hir cododd Rhys gastell yng Nglandyfi i warchod cantref Penweddig. Parhaodd o dan goron Deheubarth hyd ddiwedd y ganrif.

Ym 1155 bu farw Maredudd. Er nad oedd ond pump ar hugain oed gwnaeth enw iddo'i hun eisoes am ei ddewrder a'i ddoethineb, ei gyfiawnder a'i fawrfrydigrwydd. Dwg hyn ar gof luosowgrwydd y gwŷr galluog a fu'n dywysogion Cymreig ar hyd y canrifoedd. Ni raid iddynt ofni cymhariaeth â thywysogion Lloegr.

Syrthiodd yr arweinyddiaeth yn awr yn gyfan gwbl ar ysgwyddau Rhys Mwynfawr ap Gruffudd, mab Gwenllian, ŵyr y brenhinoedd Rhys ap Tewdwr a Gruffudd ap Cynan, a disgynnydd uniongyrchol o Hywel Dda a Rhodri Mawr. Er mai Brenin Deheubarth oedd ei dad-cu Rhys ap Tewdwr, ni elwir Rhys yn frenin. Dyna'r teitl a rydd y Brut i dywysogion Cymru hyd at ganol y ddeuddegfed ganrif, er ei gyfyngu i'r tri thywysog yr oedd eu llysoedd yn Aberffraw, Mathrafal a Dinefwr. Cyn y flwyddyn 1154 cyfeiria'r croniclwr at Owain Brenin Gwynedd, at Fadog ap Maredudd Brenin Powys, a Maredudd ap Rhys Brenin Ystrad Tywi, Ceredigion a Dyfed. Ond yn fuan ar ôl esgyniad Henri II gelwir Owain yn Dywysog Gwynedd, nid yn frenin. Tywysogion y gelwir llywodraethwyr gwledydd Cymru pan gyfeirir atynt gyda'i gilydd er na newidiodd eu swyddogaeth. Yr oedd Rhys o dras frenhinol; swyddogaeth brenin oedd ganddo; mewn popeth ond enw yr oedd yn frenin. Ond Tywysog Deheubarth ac Arglwydd y gelwir ef yn y Brutiau. Derbyniodd ef a'r tywysogion eraill y sefyllfa mai un brenin oedd yn Lloegr a Chymru, a chanolbwyntio ar ennill sylwedd gallu. Fel yr Arglwydd Rhys yr adwaenir yr hwn a deyrnasai dros Ddeheubarth yn dair ar hugain oed. Am genhedlaeth wedi marw Owain Gwynedd ym 1170 ef oedd prif dywysog Cymru, yn 'anorchfygedig ben holl Gymru' fel y dywed y Brut.

Ond yn y dyfodol y byddai hyn. Yn y cyfamser pwysai Llywodraeth Loegr yn drwm ar ei wynt. Wedi iddo ennill buddugoliaeth dros Owain Gwynedd troes Henri II ei sylw i Ddeheubarth; ac fel y bu'n rhaid i Owain ymostwng i'w nerth a bodloni ar deyrnas llai ei maint, felly hefyd Rhys.



Adferodd Henri y barwniaid Normanaidd i'w cestyll, a chyfyngwyd Rhys dros dro i'r Cantref Mawr a rhai tiroedd gwasgaredig eraill. Cyfnod arall o drai i'r Cymry a llanw i'r estron oedd hwn a barhâi am naw mlynedd. Fe'i goleuwyd gan ymosodiad beiddgar Ifor Bach, tywysog Senghennydd, talaith a redai o Fannau Brycheiniog hyd at Fôr Hafren, ar gastell Caerdydd. Mewn cyrch cwbl lwyddiannus dygodd ymaith Iarll Caerloyw a'i wraig a'i etifedd yn garcharorion.

Dinefwr oedd prif gaer Rhys. Saif rhwng dau gastell Cymreig arall a fu ym meddiant tywysogion Deheubarth trwy'r rhan fwyaf o'r cyfnod Normanaidd; Carreg Cennen herfeiddiol ei wedd ar ben ei glogwyn, a Dryslwyn, a ddifrodwyd ym 1286 pan ddanfonwyd byddin fawr o 11,000 i orchfygu gwrthryfel nerthol Maredudd ap Rhys, ac a ddinistriwyd yn derfynol gan Owain Glyndŵr. Buasai caer yn Ninefwr ers canrifoedd. Yn ôl hen draddodiad a gofnodwyd yn llawysgrif hynaf y cyfreithiau Cymreig, Dinefwr oedd prif sedd Deheubarth. Cyfeiria Gerallt Gymro at y traddodiad hwn. Ar ôl disgrifio'r Cantref Mawr fel 'lloches o'r diogelaf, o herwydd trwch dryslyd ei fforestydd, mewn rhaid i drigolion deheudir Cymru,' fe ddywed,

> 'ac yno y mae castell Dinefwr yn sefyll ar gopa bryn uchel uwchben afon Tywi, yr hwn a elwir hefyd yn brif lys y Deheubarth. Oblegid buasai tri phrif lys gynt yng Nghymru: Dinefwr yn y Deheubarth; Aberffraw yng Ngwynedd, hynny yw, ym Môn; ym Mhowys ger Pengwern, ac a elwir yn awr Amwythig.'

Am ganrif a hanner cyn codi cestyll Edwardaidd Gwynedd, hwn oedd canolbwynt nerth Deheubarth, y castell pwysicaf yn ein hanes.

Heddiw y mae adfeilion Dinefwr mewn cyflwr rhy beryglus i ganiatáu i neb fynd i mewn iddo. Ni chaiff Cymry ein hoes ni sefyll o fewn ei furiau. Llenwir y fynedfa iddo â darn mawr o fetel fel pe bai'n hen warws. Drain ac ysgall mall sydd o'i fewn. Cymdeithas Naturiaethwyr Gorllewin Cymru a'i medd. Yn y coed o'i gwmpas y mae eu diddordeb nhw, a chlod iddynt yw hynny. Nid oes disgwyl iddyn nhw warchod y rhan arbennig iawn hon o etifeddiaeth Cymru. Trigfan hipis yw'r plas hardd a saif filltir i ffwrdd, mewn parc cyfareddol ei brydferthwch, a fu'n gartref i deulu'r Rhysiaid am dros ddwy ganrif. Pe bai gan Gymru lywodraeth a hidiai ffeuen am ei hanes buasai Dinefwr ers blynyddoedd wedi'i adfer rywbeth yn debyg i'w hen ogoniant, a'i amgylchedd hardd yn ddiogel, yn gyrchfan a adnewyddai ysbryd ugeiniau o filoedd o Gymry; a phe bai gan y Cymry barch gweddus at eu gorffennol buasent wedi mynnu hyn. Nid yw'n rhy hwyr eto. Er malurio o'i barwydydd saif castell Dinefwr o hyd, nid yn

arwydd o orchfygiad fel cestyll Edwardaidd Gwynedd ond fel simbol o ysbryd herfeiddiol y Cymry.

Byr fu parhad goruchafiaeth y Normaniaid a'r Saeson ar ôl buddugoliaeth Henri II; daeth i ben pan gododd y Cymry yn rymus ym 1146. Bu eu llwyddiant yn fwy parhaol y tro hwn. Castell Llanymddyfri, y gaer a reolai'r Cantref Bychan, oedd gwrthrych cyrch cryfaf Rhys, a phan orchfygodd ef ymatebodd Henri yn ebrwydd trwy ymdeithio gyda'i fyddin i'w diriogaethau. Dyma'r pryd y llefarodd hen ŵr ym Mhencader ei eiriau proffwydol wrth y brenin, mewn datganiad croyw o'r cenedlaetholdeb Cymreig a oedd wedi datblygu erbyn hyn.

> 'Ac nid unrhyw genedl arall amgen na hon o'r Cymry, nac unrhyw iaith arall, ar Ddydd y Farn dostlem gerbron y Barnwr Goruchaf a fydd yn ateb dros y cornelyn hwn o'r ddaear.'

Bu'n rhaid i Rhys gytuno i fynd i Loegr gyda'r brenin, ond os oedd hwnnw yn gobeithio dofi ei ysbryd fe'i siomwyd. Yn union wedi iddo ddychwelyd i Gymru ffrwydrodd ei egni mewn ymosodiad chwyrn ar Geredigion, ac mewn byr o dro enillodd reolaeth dros y cyfan o'r dalaith. Cestyll Aberystwyth a Chilgerran yn unig a safodd, a byddai Cilgerran yn syrthio y flwyddyn ddilynol. Ymestynnai teyrnas Deheubarth unwaith eto hyd at lannau Dyfi. Y tro diwethaf iddi gyrraedd mor bell â hyn yr oedd Gwynedd yn wrthwynebus. Bellach, fodd bynnag, yr oedd Owain Gwynedd yn gyfaill a chynghreiriad. Ac nid Gwynedd yn unig. Ymunodd Powys a Rhwng Gwy a Hafren hefyd mewn cytgord yn yr ymdrech fawr i adfer rheolaeth Gymreig. Ymateb y brenin Seisnig oedd galw yng Nghyngor Northampton am lu mawr o filwyr unwaith yn rhagor i drechu'r Cymry; ac er bod helynt Thomas à Becket wedi dechrau effeithio er drwg ar ei sefyllfa, llwyddodd i gynnull yn Amwythig luoedd o'i deyrnas benbaladr, yn ogystal â llynges Wyddelig yng ngenau Dyfrdwy i ymosod ar arfordir Gwynedd.

Hon fyddai ymdrech derfynol y brenin nerthol hwn i ddarostwng y Cymry. Nid aros mewn safle amddiffynnol a wnaethant hwy ond ymosod ar reolaeth y Normaniaid ar Degeingl, y wlad yn nwyrain Gwynedd sy'n cynnwys Prestatyn a Rhuddlan a Dinas Basing, gan orfodi'r brenin i newid rhywfaint ar ei strategiaeth. Ei brif amcan oedd cyrchu dros y mynyddoedd i galon Gwynedd. Yn ei erbyn safai'r tywysogion Cymreig mewn undeb ardderchog; Owain Gwynedd ochr yn ochr â Rhys ap Gruffudd; Owain Cyfeiliog ynghyd ag Iorwerth Goch a meibion Madog ap Maredudd o Bowys; ac o'r wlad Rhwng Gwy a Hafren, Cadwallon ap Madog a'i frawd Einion Clud; oll yn gyflawn o'r ewyllys i ennill. Pan gyrhaeddodd lluoedd Lloegr Ddyffryn Ceiriog cwrddasant â gwroldeb y Cymry, 'a llawer o'r cadarnaf a syrthiodd o bob tu', medd y Brut. Ond



wedi iddynt ddringo i fynyddoedd y Berwyn wynebasant hinsawdd Cymru ar ei gerwinaf. Wrth ymdrechu i ymdeithio ar hyd y ffordd a elwir hyd heddiw yn 'Ffordd y Saeson' ymosodwyd yn ddidrugaredd arnynt gan storom ffyrnig a pharhaol. Tywalltodd y glaw mewn llif dibaid a rhuodd y gwynt fel anifail gwyllt. Fel y cynyddai'r storm prinhâi'r bwyd, ac fel y cryfhâi'r gwynt gwanhâi eu hysbryd. Ac yn eu cyflwr truenus ni chaent lonydd gan y Cymry. Mewn gwaradwydd a gwarth troes byddin fawreddog frenhinol Lloegr wysg ei chefn yn y llaid a llusgo yn ei hôl i'w gwlad ei hun. Er bod holl rym Lloegr a'i hymerodraeth y tu cefn iddo, methu â gorchfygu'r Cymru a wnaeth Henri II. Yn ei ddicter dialodd yn gywilyddus ar y gwystlon Cymreig a oedd yn ei ddwylo, dau ar hugain ohonynt yn cynnwys dau o feibion Owain Gwynedd, a Chynfrig a Maredudd, meibion Rhys. Dallwyd rhai ac anafu'r lleill yn greulon. Fel Maredudd Ddall yr adwaenid mab Rhys wedyn.

Ni allai dim dynnu oddi wrth faint y fuddugoliaeth Gymreig. Ond ni orffwysodd Rhys. Aeth draw ar ei union i Geredigion ac ymosod ar ei chastell cryfaf. Y tro hwn gorchfygodd Aberteifi. Er caniatáu i'r garsiwn ymadael rhoddodd ben am byth ar reolaeth teulu Clare, y perthynai Strongbow iddo, yn y dalaith. O hyn allan byddai Aberteifi yn aros yn ei feddiant ef. Ailadeiladodd y castell a'i wneud yn gymar i Ddinefwr fel un o'i ddau brif lys. Yno y noddodd eisteddfod enwog 1176 a gyhoeddwyd ddeuddeng mis ymlaen llaw, a hynny yn Iwerddon a'r Alban yn ogystal â Chymru, gan amlygu trwy hynny ymwybyddiaeth barhaol o'r berthynas a fu. Bardd o Wynedd a enillodd y gadair; telynor o Ddeheubarth a ddyfarnwyd yn feistr cerdd.

Parhaodd Rhys i estyn ei reolaeth dros y deheudir. Ymosododd ar Normaniaid Brycheiniog a Buellt, arglwyddiaeth de Breos. Ymhen cenhedlaeth arall byddai priodas Gruffudd ei fab â Matilda de Breos yn arwyddo perthynas fwy cyfeillgar rhwng y ddau deulu. Yr oedd yn enghraifft o'r cymysgu helaeth rhwng uchelwyr y ddwy genedl a wnaeth, ynghyd â'r gyfathrach rhwng y gwŷr o grefydd a'r bobl ddistadlach, gymaint i gyfoethogi bywyd Cymru. Tyst o hyn yw'r cannoedd o eiriau Ffrangeg a ddaeth i'r iaith. Cyd-ddigwyddai'r gyfathrach hon â'r dadeni a gerddai trwy Ewrop yn y ddeuddegfed ganrif ac a gynhyrfodd fywyd Cymru hithau, yn bennaf trwy gyfrwng y myneich.

Bu effaith y Normaniaid ar fywyd crefyddol y wlad yn aruthrol. Ymgiliodd hen glasau mawr Cymru ac amlhaodd yr eglwysi a'r mynachlogydd a'r lleiandai Ffrengig. Noda D. Simon Evans 30 o achosion a sefydlodd y Normaniaid yn neheudir Cymru yn ystod eu cyfnod cyntaf, 14 ohonynt yn Neheubarth a Dyfed. Cynhwysai'r rhain Gaerfyrddin, Cydweli a Llanymddyfri. Eu harfer oedd ymsefydlu lle yr oedd castell a

bwrdeisdref Normanaidd. Gydag amser Cymreigiwyd y rhan fwyaf o'r ynysoedd Ffrangeg a Saesneg hyn. Er enghraifft, yng Nghydweli yn nechrau'r ganrif hon yr oedd 93% y cant o'r trigolion yn siarad Cymraeg.

Hawdd y gallasai Cymreictod ddiflannu o dan bwysau'r goresgyniad Normanaidd fel ag yr ymgiliodd yn Ystrad Clud. Yn lle hynny gwelodd teyrnasiad Rhys adfywiad Cymreig, a borthwyd yn egnïol ganddo, a roes nerth ac urddas newydd i'r bywyd Cymreig. Tyn Myrddin Lloyd sylw at ddefnydd Cynddelw o'r term 'Maiestawd Dehau' wrth foli Rhys, a dengys fel yr adferwyd 'maiestawd' i Gymreictod ar ôl cyfnod o bryder ac o ddarostyngiad pan fu'r perygl yn fawr. Yn ystod yr argyfwng gwelwyd bod yr iaith yn drysor i'w goleddu ac i ymfalchïo ynddo; ac yr oedd ei noddi a'i chryfhau yn bolisi ymwybodol gan Rhys. Fel rhan ohono dyrchafodd gwlt Dewi, fel y gwelir yn yr awdl i Ddewi a ganwyd gan ei fardd llys, Gwynfardd Brycheiniog. Heblaw canmol 'Dewi doeth Gymraeg' am ei fod yn Gymro Cymraeg, dywed fod

> Dewi mawr Mynyw, syw sywedydd,
> a Dewi Brefi ger y broydd

yn cael ei fawrygu nid yn unig trwy Gymru gyfan ond gan 'saint Angaw a Llydaw', yn Lloegr, yr Hen Ogledd, Manaw a'r Ynysoedd.

Heblaw hyn hybai Rhys wlatgarwch trwy gefnogi'r hyn a eilw Myrddin Lloyd y symudiad mwyaf nerthol mewn Cristnogaeth gyfoes. Gyda thywysogion Cymreig eraill rhoddodd nawdd hael i Urdd y Sistersiaid, a wnaeth lawer mwy na chyfoethogi economi Cymru. Cymerodd eu mynachlogydd le'r hen glasau fel noddwyr a chynheiliaid yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Tŷ Sistersaidd oedd Ystrad Fflur a noddwyd mor hael gan Rhys nes ei alw yn sefydlydd. Hwn oedd un o'r tai a gadwai Frut y Tywysogion, ac yn nes ymlaen ymgynullai ysgol feirdd yno. Yr oedd Premonstratensiaid Abaty Tal-y-llychau a sefydlwyd gan Rhys yr un mor Gymreig. Ei Gymreictod a ddygodd forthwyl Edward I am ei ben a disodli ei fyneich gan 'others of the English tongue'.

Yr oedd y Brutiau, fel bucheddau niferus y saint, yn arwydd o'r diddordeb cynyddol mewn hanes a adlewyrchai dwf yr ymwybyddiaeth Gymreig. Rhan bwysig o swyddogaeth y beirdd erioed oedd cadw hanes a thraddodiadau'r wlad ar eu cof. Bellach amlhaodd haneswyr hefyd ymhlith y myneich, a sgrifennai nid yn Gymraeg ond yn Lladin.

Sieffre o Fynwy, un o dras Lydewig, oedd yr enwocaf o'r haneswyr. Galwyd ei waith mwyaf, yr *Historia Regum Britanniae*, a gyfieithiwyd i'r Gymraeg dan y teitl *Brut y Brenhinedd*, 'the most influential work of medieval British historiography'. Hwn oedd cychwynfan y chwedlau am Arthur a ddylanwadodd mor drwm ar lenyddiaeth y cyfandir. Bu



dylanwad Sieffre yn drwm yng Nghymru yn wleidyddol yn ogystal â llenyddol, canys wrth gyflwyno i'r Cymry futh gogoneddus o'u hanes cyfrannodd at gynnal yr ymwybyddiaeth genedlaethol trwy'r cenedlaethau a'r canrifoedd dilynol.

## Cymru'r Arglwydd Rhys

Pwysicach na Sieffre i'n dealltwriaeth o gymeriad Cymru cyfnod Rhys yw llyfrau bywiog Giraldus Cambrensis. Am fod Gerallt yn or-ŵyr i'r brenin Rhys ap Tewdwr ac yn dri-chwarter Norman medrai sylwi'n lled wrthrychol ar fywyd y wlad. Er mai personol oedd cymhelliad ei ymdrech i ennill esgobaeth Tyddewi a'i throi yn archesgobaeth Cymru yr oedd y gefnogaeth iddo yn adlewyrchu'r ysbryd cenedlaethol newydd. Amlygwyd cenedlaetholdeb Cymreig yn gynnar yn yr Eglwys. Glynodd y Cymry wrth yr arferion a'u gwahaniaethai oddi wrth Eglwys Rufain, megis y ffordd o ddyddio'r Pasg, ganrif a hanner ar ôl i'r Gwyddelod eu gollwng. Gan fod rheolaeth Caergaint ar yr Eglwys yn elfen bwysig yn llywodraeth y Normaniaid ar y wlad cymerai Gerallt mewn gwirionedd ran mewn brwydr boliticaidd. Yng nghwrs ei ymgyrch ymwelodd deirgwaith â'r Pab yn Rhufain i geisio ennyn ei gydymdeimlad ef. Ond nid yn unig oherwydd ei frwydr aflwyddiannus dros Dyddewi y cofiwn amdano'n ddiolchgar ond hefyd am ei ddau lyfr am Gymru, sy'n fwnfa o wybodaeth ddifyr a phwysig am fywyd ei oes. Ysgrifennodd un ohonynt ar ôl ei daith trwy'r wlad fel gwas i'r goron a chydymaith i'r Archesgob Baldwin o Gaergaint, a geisiai ricriwtio Cymry ar gyfer y drydedd Groesgad. Tua diwedd teyrnasiad Rhys oedd hyn. Rhydd ddisgrifiad diflewyn-ar-dafod o wendidau'r Cymry y mae rhai ohonynt yn parhau i'n nodweddu. Pery rhai, ond nid y cyfan, o'r rhinweddau a ddisgrifia hefyd. Yr hyn sy'n ein taro at ei gilydd yw mor debyg yr ydym heddiw i'r Cymry wyth ganrif yn ôl. Rhyfeddol iawn yw'r parhad yng nghymeriad y bobl trwy gyfnewid dau mor chwyldroadol yn economaidd a chymdeithasol, technolegol a gwleidyddol. Hoffwn feddwl na ddiflannodd yn llwyr yr hyn a ddywed am groesawgarwch a lletygarwch:

> Nid oes neb cardotyn ymhlith y genedl hon. Yn wir, rhoddant ragoriaeth dros yr holl rinweddau i haelioni, ac i groesawgarwch yn arbennig.

Mewn pennod ar finiogrwydd a chraffter eu deall fe ddywed,

> Y mae'n genedl o ddeall treiddgar a chraff. Trwy ddawn eu hathrylith gyfoethog rhagorant ym mha astudiaeth bynnag y rhoddant eu bryd arni. Ac y mae'r genedl hon i gyd yn gyffredinol yn fwy deallus a chraffach ei meddwl na'r cenhedloedd eraill sy'n trigo mewn hinsawdd orllewinol.

Am eu canu dywed hyn:



> Yn eu peroriaeth gerddorol, seiniant y caneuon, nid yn unllais fel mewn gwledydd eraill, ond mewn llawer llais, ac mewn llawer modd a chywair. Ac felly mewn cwmni o gantorion, fel y mae'n arfer gan y genedl hon, clywi gynifer o gyweirnodau ac o leisiau amrywiol ag y gweli o bennau.

Rhoddir pennod i'w harabedd ymadrodd a'u digrifwch, ac un arall i'w hoffter o linach rywiog a chadw eu hachau yn hir ar gof. Yn honno dywed,

> Y mae hefyd, hyd yn oed y distatlaf o'r werin yn ofalus am ei daflen achau; ac edrydd oddi ar gof, ac yn rhugl, ei achau, nid yn unig ei deidiau, ond at y chweched, neu hyd yn oed y seithfed genhedlaeth, ac ymhell y tu hwnt i hynny.

Canmola eu cariad at Gristnogaeth, ond rhaid gosod hyn ymhlith y rhinweddau nad ŷnt amlwg heddiw, ynghyd â'u hyder a'u gwlatgarwch y rhydd Gerallt benodau arbennig iddynt.

> Rhoes natur iddynt i gyd yn gyffredinol, i'r distatlaf ymhlith y werin megis i'r gwŷr mawr, ehofndra wrth siarad, ac ymddiried wrth ateb yng ngwydd tywysogion a phendefigion, ymhob math o helynt.

Gwyn ein byd pe bai gan y Gymry yr hyder a'r urddas hwnnw heddiw, a'r cariad at ryddid a noda Gerallt ymhlith yr holl bobl, y gwladwr cyffredin yn ogystal â'r uchelwr.

> Ar amddiffyn eu gwlad a'u rhyddid yn unig y mae eu bryd: tros eu gwlad y brwydrant, tros ryddid y llafuriant: tros y rhain melys yr ymddengys iddynt nid yn unig ymladd â'r cledd, ond hefyd roi eu bywyd i lawr.

Byddai'n dda gweld cerfio'r geiriau olaf hyn ar wenithfaen a'u gosod i sefyll yn ymyl cartref Giraldus Cambrensis ym Maenor Byr.

Gyda chwrteisi mawr cyfarfu Rhys â'r Archesgob Baldwin a'i osgordd ym Maesyfed ar gwr dwyreiniol maes ei awdurdod, ac unwaith eto pan ddaeth i Geredigion. Fe'i hebryngodd wedyn hyd at afon Dyfi. Ymdeimlwn ag awyrgylch Cymru Rhys yn nisgrifiad Gerallt o Gynwrig, un o dri mab Rhys a fu'n gwrando ar Baldwin yn pregethu.

> Yntau yn ŵr golau ei bryd, crych ei wallt, yn deg a hydwf, ac fel y cadwai arfer ei wlad a'i genedl, ni wisgai ond un fantell denau a chrys, gyda'i goesau a'i draed yn noeth, ond heb arswydo rhag y drysni a'r drain; gŵr a ddiogelid nid gan gelfyddyd ond gan natur; gan ddangos llawer iawn o urddas o'i briod berson, ychydig iawn o unrhyw beth atodiadol.

## Anorchfygedig Ben Holl Gymru

Wedi marw Owain Gwynedd ym 1170 safai Rhys ar ei ben ei hun ymhlith tywysogion Cymru. Yn dilyn cytundeb a wnaeth â brenin Lloegr fe'i cydnabuwyd yn Brif Ustus deheudir Cymru a'i awdurdod yn ymestyn dros y de-ddwyrain yn ogystal â'i deyrnas ei hun. Am hwn y sgrifennai W.J. Gruffydd,

> Yr Arglwydd Rhys, prif frenin Cymru fawr.
> Dyddiwr dros Elfael a Maelienydd, teyrn
> Gwerthrynion, a'i wialen aur a'i lef
> Yn cyrraedd pellaf oror Gwent.

At ei gilydd cyfnod o heddwch a ffyniant fu cenhedlaeth olaf ei deyrnasiad. Diogelodd Ddeheubarth rhag gwaethaf cyrchoedd y Normaniaid trwy ystryw a arweiniodd at newid hanes Iwerddon. Rhaid mynd yn ôl at oes Rhys ap Tewdwr i ddeall yr hanes.

Rhoddwyd Nest, merch brydweddol Rhys ap Tewdwr, mewn priodas i Gerald o Windsor, arglwydd Penfro. Ei phlant sy'n bwysig yn y stori. Ni chafodd ddim plant gan Owain ap Cadwgan a'i cipiodd o gastell Cenarth dan drwyn ei gŵr, ond dygodd nythaid i Gerald a rhai i dri Norman arall, gan gynnwys Henri I. Merch iddi oedd Angharad, mam Gerallt Gymro. Ond â'r milwyr y mae a fynnom ni. Lladdwyd un ohonynt, mab Henri I, wrth ymladd yn erbyn y Cymry ym Môn, ond bu rhai, ynghyd â'u meibion, yn egnïol aflonyddu ar yr Arglwydd Rhys. Yn eu plith yr oedd Robert fitzStephen, mab i Nest ac ewythr i Rhys. Gydag ef y dechreua'r saga Gwyddelig. Cafodd ei drechu gan Rhys mewn brwydr ym 1165 a'i garcharu. Ym 1167 galwodd Dermot brenin Leinster ar Rhys i ymbil am gymorth i adfer ei orsedd yn Iwerddon. Yr oedd wedi apelio'n ofer at Henri II. Gofynnodd i Rhys ryddhau Robert fitzStephen o garchar. Ni chytunodd Rhys ar y pryd, ac o ganlyniad un Norman Cymreig yn unig a aeth gyda Dermot i Iwerddon, sef Richard fitzGodebert o'r Rhos. Fodd bynnag, wedi ymgynghori â David fitzGerald, esgob Tyddewi a mab i Nest, gwelodd fantais cael yr arglwyddi nerthol hyn yr ochr draw i'r dŵr. Byddai bod Normaniaid Dyfed yn rhyfela yn Iwerddon yn golygu heddwch i Rhys yng Nghymru. Gan hynny rhyddhaodd fitzStephen. Cymerodd hwnnw gydag ef i Iwerddon Meilir fitzHenry, ŵyr Nest trwy fab Henri I; Robert o'r Barri, ŵyr arall a brawd Gerallt Gymro; a Maurice o Prendergast ger Hwlffordd. Cyn bo hir ymunwyd â nhw gan ddau arall a orchfygwyd gan Rhys, sef Maurice fitzGerald, cyn-arglwydd Llansteffan, a Raymond fitzGerald, ill dau yn ddisgynyddion i Nest.

Amlygwyd nerth yr arglwyddi a orchfygwyd gan Rhys yn eu llwyddiant



hwy yn gorchfygu rhan fawr o Iwerddon. Wedi iddynt goncro Waterford a Dulyn, canolfan nerth y Sgandinafiaid Gwyddelig, ac adfer Dermot i'w orsedd yn Leinster, aeth Richard de Clare (Strongbow), Iarll Penfro, draw. I ddwylo'r Iarll hwn y syrthiodd teyrnas Dermot pan fu'r brenin hwnnw farw ymhen dwy flynedd. Esbonia Trevelyan lwyddiant cyflym y Normaniaid Cymreig fel hyn:

> 'His (Strongbow's) partners in this last of the Norman conquests were not pure Normans, nor pure Anglo-Normans. Many of them like the famous fitzGeralds were sons of Welsh mothers. They were a special border breed, these "Marcher lords"; and their soldiers were many of them Welsh or Flemings. Perhaps the Celtic element in the blood and experience of these first "English" conquerors of Ireland helped their descendants to mingle only too easily with the native Irish and adapt their own feudal institutions to the tribalism of the Celtic world beyond the Dublin "pale" . . .
>
> 'But no Norman intruders in England, Sicily or Scotland ever showed themselves superior in warlike efficiency to the followers of Strongbow. His chain-clad knights were supported by archers, whose skill was then the speciality not of England but of Wales. The unarmoured infantry of the Irish tribes . . . were helpless against the best archers and some of the best cavalry in Europe . . .
>
> 'The Danes were massacred or returned to Scandinavia, making way for the conquerors.'

Wedi ymadawiad cynifer o arglwyddi Normanaidd yr oedd safle Rhys yn gryf a diogel, a bu'n rhaid i frenin Lloegr gydnabod hynny. Dychrynwyd Henri II gan lwyddiant y Normaniaid Cymreig yn Iwerddon a wnâi wladwriaeth Normanaidd Wyddelig yn bosibl. Gan hynny aeth draw i Iwerddon ei hunan yn Hydref 1171 i sefydlu ei awdurdod yno. Ei bolisi oedd rhannu llawer o'r wlad rhwng yr arglwyddi Normanaidd a'i concrodd a chadw rheolaeth y trefydd yn ei ddwylo ei hun. Cydnabuwyd ei benarglwyddiaeth dros yr holl wlad gan ei brenhinoedd ei hun a chan yr Eglwys hithau. Er i'r Brenin John, olynydd Henri, sefydlu llywodraeth Seisnig annibynnol yno, gwanhaodd honno a bu'n rhaid ceisio ei hailsefydlu yn y ganrif nesaf. Y pryd hynny rhoddwyd y llywodraeth yn nwylo tri iarll, dau ohonynt yn fitzGeralds, disgynyddion y brenin Rhys ap Tewdwr a pherthnasau i'r Arglwydd Rhys. Hwy mewn gwirionedd a reolai Iwerddon, ac o dan eu trefn hwy daeth y wlad yn fwy Gwyddelig. Blodeuodd ei hiaith, ei chyfraith a'i gwareiddiad.

Parhaodd goruchafiaeth Rhys am chwarter canrif ar ôl ymadawiad yr arglwyddi Normanaidd. Yn ystod y cyfnod hir hwnnw o heddwch ffynnodd iaith a chyfraith a gwareiddiad Cymru hithau hefyd. Yn y cyfnod hwn o reolaeth Gymreig gadarn sefydlodd Rhys Abaty Tal-y-llychau ar gwr cwmwd Caio lle y'i maged ef. Dyma pryd y noddodd Ystrad Fflur ac y sefydlodd leiandy Llan-llŷr yn Nyffryn Aeron. Bu'n hael iawn wrth Abaty Hendy Gwyn ar Daf lle y treuliodd Maredudd Ddall ei fywyd. Hwn yw cyfnod y wledd eisteddfodol yng nghastell Aberteifi lle yr oedd llys a oedd yn ail da i Ddinefwr; a'r oes hon a ddisgrifir yn llyfrau Gerallt Gymro.

Rhys y milwr a'r gwleidydd, y crefyddwr a'r gwlatgarwr a welwn yn ei weithredoedd. Dyma'r gŵr a folwyd gan Gynddelw:

> Gwelais hael o hil Anarawd
> A'i gweles, gwelai ryfeddawd,
> Mal cadarn yn cadw ei briawd
> Mal cadwr, cadwai a ddywawd.

Yr unig beth a wyddom am ei fywyd teuluol yw ei fod yn briod â merch Madog ap Maredudd, tywysog Powys Fadog. Ond mewn teyrnged anghyffredin yn y Brut gwelwn wedd fwy personol ar ei gymeriad. Tystia'r Brut i'w gwrteisi a'i warineb wrth ei ddisgrifio fel gŵr 'hynaws ei ymadrodd, teg ei wyneb, gwâr a chyfiawn wrth bawb.'

Eithr pan fu farw Henri II ym 1189 ofnodd Rhys y gallai'r brenin newydd beidio â chydnabod ei oruchafiaeth. Er mwyn diogelu a chryfhau ei deyrnas cymerodd unwaith yn rhagor at faes y gad fel y gwnaeth yn fachgen 14 oed. Ymosododd ar ardaloedd cyffiniol a barhâi o dan reolaeth Normanaidd. Anrheithiodd yn eu tro drefedigaethau Rhos a Phenfro, Carnwyllion a Gŵyr. Cipiodd gestyll Lacharn a Llansteffan. Rhoes yr ymgyrchoedd hyn gyfle i'w feibion ddangos eu galluoedd, yn arbennig Gruffudd a Rhys Gryg, Maelgwn a Hywel. Eu hanundeb hwy, a'r elyniaeth rhwng Gruffudd a Maelgwn yn arbennig, a daflodd gysgod dros ei flynyddoedd olaf. Yr hen wendid ym magwraeth meibion y tywysogion oedd prif achos hyn. Ond yr oedd gan Gruffudd a Maelgwn famau gwahanol hefyd; wedi eu magu mewn gwahanol ardaloedd, y naill yn Ystrad Tywi a'r llall yng Ngheredigion, yr oeddent yn ddieithr i'w gilydd. Un tro yn ystod yr anghydfod teuluol cadwodd dau o'r brodyr Rhys ei hun yn garcharor am sbel fer.

Er mor boenus y drafferth hon amlygodd Rhys, a ddechreuodd ei yrfa fel milwr ym 1146, egni a phenderfyniad ardderchog. Pan gymerodd gastell Sain Clêr fe'i rhoddodd, ynghyd â chymydau Amgoed a Pheulinog, o dan reolaeth Hywel. Ym 1190 cafodd fuddugoliaeth fawr a ddygodd gof



am ladd ei fam Gwenllian pan lwyddodd i feddiannu

> Hen gaer Cydweli, a roes aml i glwyf
> I luoedd Cymru

a rhoi talaith Cydweli o'r diwedd dan ei law. Eto wedyn gorchfygodd Gemaes a gorfododd Nanhyfer, ei brif gastell, i ildio iddo. Ym 1196 fe gododd yn ei

> 'henaint fel hen lew
> I ysgwyd ymaith y Normaniaid mân.'

Mewn un ymgyrch fawr olaf casglodd yr hen dywysog ei nerth ynghyd. Gydag ynni i'w ryfeddu ymosododd ar dref frenhinol Caerfyrddin a'i llosgi i'r llawr. Croesodd ucheldir Buellt i ddarostwng castell Colwyn, prif gaer Elfael. Dygodd gyrch ar gastell Maesyfed, ac er i ddau arglwydd Normanaidd cryf, Roger Mortimer a Hugh de Say, ddwyn eu byddinoedd unol yn ei erbyn fe'u trechodd yn llwyr a dinistriodd y castell a'r dref. Buasai Painscastle ar y ffin wedi cwrdd â'r un dynged onibai am gytundeb a wnaeth â'i arglwydd, William de Breos, tad yng nghyfraith ei fab Gruffudd.

Yr ymgyrch hon i ddiogelu ei ororau oedd ymdrech derfynol yr hen wron. Yn ôl cofnodiad y Brut am y flwyddyn 1197, 'bu dirfawr dymestl o farwolaeth ar hyd Ynys Prydain oll a therfynau Ffrainc y bu farw yndo aneirif o'r bobl gyffredin, a difesured o'r boneddigion a'r tywysogion.' Ni ddywed mai'r pla hwn a laddodd Rhys, ond bu farw ar 28 Ebrill y flwyddyn honno yn 65 oed. Cafodd ei gladdu yn Nhyddewi, lle y mae ei gerflun ar ei feddrod ers bron wyth ganrif, y gŵr a

> 'oedd ben a tharian a chadernid y Deheu a holl Gymru. Y gŵr hwnnw a hannoedd o fonheddicaf lin brenhinedd.'

Ef oedd y mwyaf o dywysogion Deheubarth, medd Syr J.E. Lloyd, a'i ymdrech hir a phenderfynol yn erbyn y gallu Eingl-Normanaidd yn fwy na dim byd arall a gadwodd yn fyw yn neheudir Cymru y syniad am genedligrwydd ac annibyniaeth Gymreig. Nid gormod dweud ei bod yn annhebygol y byddai'r iaith Gymraeg a'r gwareiddiad Cymreig yn bod yn y deheudir heddiw onibai am ei fywyd ef.